# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn neddfwriaeth Cymru*

### 6 Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion

(1) Mae geiriau ac ymadroddion a restrir yn y Tabl yn Atodlen 1 i'w dehongli yn unol â'r Tabl hwnnw pan fônt yn ymddangos mewn **[**[F1]Deddf gan Senedd Cymru**]** neu is-offeryn Cymreig.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio Atodlen 1 er mwyn—

(a) mewnosod diffiniadau newydd o eiriau neu ymadroddion;

(b) dileu diffiniadau o eiriau neu ymadroddion;

(c) diwygio diffiniadau o eiriau neu ymadroddion.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) wneud darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n addasu fel arall unrhyw ddeddfiad (pryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Deddf wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 5(8)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6(1) mewn grym ar 11.9.2019 at ddibenion penodedig, gweler **a. 44(1)(c)**

**I2** A. 6(2)(3) mewn grym ar 11.9.2019, gweler **a. 44(1)(b)**

**I3** A. 6(1) mewn grym ar 1.1.2020 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2019/1333, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Adran 6.